Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
GORFFENNAF 2009

DYDDIAD	Nos Fercher, 15fed Gorffennaf
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan Cae'r Gors, Rhosgadfan
PRESENNOL	Meurig Williams (Cad), Jason Hunt, Elin Evans, Tom Ellis, Huw Williams, Gwilym V.Thomas, Nerys Evans

1. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. **Ymddiheuriadau**
   Neal Williams ac Elwyn Jones. Cafwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Jane Eryl Jones. Clerc i ysgrifennu ati i ddiolch iddi am ei gwasanaeth ac i ddymuno'n dda iddi yn ei chartref newydd yng Nghaerdydd.

3. **Datgan Buddiant**
   HW – cae chwarae Rhosgadfan

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Coed mynwent Cefnfaes yn gordyfu. Clerc wedi cysylltu efo cwmni arbenigol, ac maent wedi awgrymu tynnu'r coed presennol a phlannu coed ywen newydd yno. Cafwyd pris o £450-500 am wneud y gwaith.
   b. Cae Chwarae Rhosgadfan – clerc wedi ymholi yn y Gofrestr Tir ynglyn a pherchnogaeth tir, ond heb gael ateb eto. Yn ôl HW, mae dau ymddiriedolwr ar y pwyllgor, sef Jeff Williams a Geraint Evans. Hefyd nododd HW fod y Comisiwn Elusennau yn ymwneud â'r pwyllgor, a phe bai'r Cyngor Cymuned am gymryd drosodd gofal y cae, byddai angen caniatâd y Comisiwn. Nododd HW pe bai safle'r hen neuadd yn cael ei werthu, yna byddai'r arian hwnnw yn cael ei ddefnyddio i brynu offer chwarae yn y cae. Fodd bynnag, fe deimlai'r aelodau nad oedd unrhyw ddatblygiad i'r perwyl yma, ac felly penderfynnir gwahodd y ddau ymddiredolwr i mewn i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned i egluro'r sefyllfa bresennol, ac i geisio symud ymlaen i gael adnoddau i'r cae.
   c. Polion BT – un anniogel ger syrjeri Rhostryfan wedi'i ddiogelu a'r polyn ger Bryn Meillion wedi'i ail-leoli yn nes at y wal. Drws y ciosg hefyd wedi'i drwsio.
   d. Hysbysfwrdd i Saron – clerc wedi holi ymhle y byddai'r trigolion yn dymuno lleoli'r hysbysfwrdd. Penderfynwyd rhoi caniatâd i'r clerc fynd ymlaen i archebu'r hysbysfwrdd. Heb glywed dim yn ôl. Adroddodd EE fod cyfarfod wedi' drefnu nos fory (16eg o Orffennaf) a gobeithir ceir atebion i'r clerc wedi hynny.
   e. Llythyr diolch gan G.Roberts, Maen Brith am i'r Cyngor Cymuned ei helpu gyda'r broblem o ddwr yn gorlifo yn y ffordd.
   f. Ymateb gan David Powell, Cynulliad ac Alun Ffred Jones ynglyn ag

adroddiadau uniaith Saesneg yn cael eu hanfon o'r Cynulliad.

g. GLW – coed yn gordyfu ar bont Caer Moel – clerc i fynd at Gyngor Gwynedd gan ei bod eisoes wedi cysylltu efo Ffestiniog. Clerc i holi swyddog gorfodaeth Cyngor Gwynedd am gefnogaeth.

h. NE – problemau parcio ger y Becws, Rhostryfan. Gwasanaeth Tân wedi nodi nad ydy'r sefyllfa'n dderbyniol ac wedi addo gwneud adroddiad i Gyngor Gwynedd. Clerc i checio fod hyn wedi digwydd.

i. NE – nodwyd fod rhai beddi yn Cefnfaes efo cerrig a blodau ar y lawnt yn hytrach nag ar y garreg fedd yn unig. Clerc i geisio cysylltu efo'r teuluoedd. Jason Hunt a Gwilym V.Thomas wedi gwirfoddoli i wneud archwiliad o'r cerrig beddi. Bydd y clerc yn paratoi rhestr ar eu cyfer.

j. Wedi cael ebost gan swyddog llwybrau Gwynedd yn cwyno am gyflwr llwybr 17 rhwng Hen Gastell a Ffingar. Clerc i ofyn wrth Siôn gymryd golwg ar y llwybr.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
Mynychodd y clerc Gynhadledd Undydd SLCC ar gyfer clercod yn Llandudno r y 7fed o Orffennaf. Roedd yn ddiwrnod buddiol iawn a chafwyd gwybodaeth am: systemau cyfrifiadurol ar gyfer cyfrifon; cyrsiau hyfforddi CILCA ar gyfer clercod; rheoli tir ar gyfer *allotments*; system audit ac yn y blaen.

7. **Is-bwyllgorau:**
   Is-bwyllgor cyllid a gweinyddol – cyfarfod 15.07.09 – 6.30p.m. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cyfrifon am y flwyddyn 2008/09.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	14,861.83
Cyfri Siec:	1,201.61
CYFANSWM	**16,063.44**
Taliadau:	
Cyflog/costau clerc mis Gorffennaf ac Awst	758.00
Cyllid y Wlad	177.00
Wyn Williams	422.50
Incwm: Ad-daliad TAW	1791.09

   Llyfr PAYE wedi cyrraedd o'r diwedd.
   Cais am nawdd i'w ystyried ym mis Chwefror:
   Shelter Cymru

9. **Materion Cynllunio**
   Ceisiadau:
   CO9A/0297/24/LL – diwygio edrychiadau allanol yr estyniad – 2 Ty'n Rhosydd, Rhosgadfan – teimlai rhai aelodau fod y ffenestr newydd ar y llawr cyntaf i'r estyniad yn fawr iawn, ac nad yw'n gweddu i weddill yr adeilad.

   Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
   CO9A/0302/24/YA – cais am hysbysiad ymlaen llaw am adeilad amaethyddol – Geufron, Dinas
   CO9A/0275/24/LL – cais ôl-weithredol i gadw ty gwydr – Graianfryn, Llanwnda
   CO9A/0303/24/LL – cais i god dau dy pâr, modurdai a chreu mynedfeydd newydd – tir ger y Goat, Llanwnda
   Wedi'u caniatau:
   White Tower – ail leoli 6 carafan gwyliau statig ynghyd a 20 carafan gwyliau statig newydd yn lle 52 carafan teithiol presennol a gwelliannau amgylcheddol.
   Ty'n Rhosgadfan – estyniadau

10 **Gohebiaeth:**

a. Cyngor Gwynedd - Ad-drefnu Gwasanaeth Cofrestru Gwynedd
b. Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Cymru – gweler atodiad sy'n berthnasol i Gwynedd ynghlwm
c. Un Llais Cymru – rhaglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned
d. Cynllun cymorth i newid i ddigidol gan y BBC
e. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg – gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus – Cymunedau Cymraeg Cynaliadwy – Pabell y Cymdeithasau, Maes yr Eisteddfod, 2 o'r gloch, Awst 5ed
f. Cymunrodd Elizabeth Hughes – cofnodion
g. Cymdeithas Tai Eryri – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (15.07.09)
h. Cylchgronnau

11 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. NE – wrth ddod i'r ffordd yn Penceunant o gyfeiriad Tan Dderwen, mae gwrych y cau yn atal gweledegd.
b. TE – arwyddion pobl yn croesi'r ffordd newydd.
c. TE – Goat – angen torri'r coed yn eu holau i gael gwell gweledegd.
d. HW – eithin ar ochr y ffyrdd yn Rhosgadfan – angen cael rhywun i fyny i weld y safloedd.
e. MW – copi o ebost gan Gyngor Gwynedd ynglyn a sgubo'r ffyrdd. Angen checio fod y tracker yn dangos fod y sgubwr wedi bod yn Rhosgadfan.
f. EE – angen torri'r gwrychoedd ger Hen Efail, Ffrwd Cae Du
g. EE – junction Saron, angen tacluso'r gwair wrth y fainc
h. JH – wedi cael cwyn ynglyn a llwybr Gaerwen i Cae Rhug. Hefyd angen i'r clerc gysylltu â Tai Eryri ynglyn a'r gordyfiant ar y llwybr heibio Capel Horeb.
i. MW – cwynion fod motobeics yn mynd drwy'r pentref – angen gyrru llythyr at yr heddlu yn nodi'r gwyn.
j. TE – junction Sarn – tybed oes modd i'r Cyngor Sir wneud rhywbeth ynglyn a gweledegd?
k. GVT – parcio yn Gwelfor. Carafan a bagiau tywod wedi'u gadael yno. Clerc i gysylltu â'r Adran Dai.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm.

Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd ar Fedi 16eg yn Rhostryfan (i'w gadarnhau).